*Parhad o dudalen 3*

Y mae ef ei hun, er lles ei iechyd, yn awyddus iawn i symud ei gartref sefydlog o ganol berw Llundain i ardal wledig dawel yng Nghymru, a bu'n chwilio ers tro am dŷ capel gwag y gellid ei osod iddo. Ei fwriad fyddai storio'r elfen Gymreig o'i gronfa ddata mewn canolfan ar dir Cymru, ynghyd â chasgliad o dros 20,000 o ffotograffau a sleidiau lliw sy'n darlunio pob agwedd ar dirwedd, hanes a diwylliant ein cenedl. Y mae'r casgliad cynhwysfawr hwn o ddarluniau yn barod ganddo i'w sganio ar ddisgiau cyfrifiadurol CD-ROM, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r casgliad, ynghyd â'r gyfeiriadaeth berthnasol o'r gronfa ddata, fod ar gael ym mhob ysgol, coleg, llyfrgell a chanolfan dwristiaeth trwy Gymru, Prydain a'r byd.

Byddai'n resyn o'r mwyaf — yn wir fe fyddai'n drychineb — petai llafur cariad enfawr a chlodwiw y cyfaill hwn (llafur cariad yn wir, oherwydd o'i wirfodd ei hun ac ar ei gostau ei hun i raddau helaeth y cyflawnodd y gwaith) yn methu gweld golau dydd oherwydd diffyg cefnogaeth o du'r genedl a'i sefydliadau, a fyddai'n sicr yn y pen draw o elwa'n doreithiog ar ei ffrwyth. Rhyw dair neu bedair blynedd yn ôl, pan oedd gobaith cryf y byddai'r nawdd angenrheidiol ar gael i gyhoeddi'r *Fieldguide* ar fyrder, yr oedd yr ymateb iddo gan wŷr amlwg, y dangoswyd iddynt allbrint cyfrifiadurol ohono, yn gefnogol a brwdfrydig i'r eithaf. Yr oedd Tywysog Cymru ei hun wedi cyfansoddi cyflwyniad hynod o werthfawrogol ar gyfer y gyfrol; a derbyniasai'r awdur negeseuon cefnogol a brwd eu hedmygedd a'u cymeradwyaeth oddi wrth Gymry mor flaenllaw ag Archesgob Cymru, yr Arglwydd Hooson (yn ysgrifennu ar ei ran ei hun a nifer o'i gyd-Gymry yn Nhŷ'r Arglwyddi), Syr Glanmor Williams, y Prifathro Derec Llwyd Morgan, yr Athro Emeritus Ieuan Gwynedd Jones, y Dr R. Geraint Gruffydd, Mri. E. G. Millward a Kevin Thomas (Cyfarwyddwr yr Academi Gymreig).

Yn y sefyllfa bresennol, yr angen pennaf yw dwyn y gwaith tra phwysig a defnyddiol hwn i sylw'r cyhoedd trwy bob cyfrwng posibl, gan obeithio y bydd unigolion, eglwysi, cymdeithasau o bob math, cwmnïau busnes, sefydliadau cyhoeddus a chynghorau, y Swyddfa Gymreig a'i hadrannau a'i byrddau, a phob corff perthnasol arall, yn cael eu hysgogi i ystyried mewn difrif pa fodd y gellir sicrhau'r nawdd angenrheidiol i gyhoeddi'r *Fieldguide* yn Saesneg ar fyrder, i sicrhau cyfieithiad Cymraeg ohono i'w gyhoeddi'n fuan wedyn, ac i gefnogi Marg McNiel yn y gwasanaeth tra arbennig hwn a gyflawnodd, ac y mae'n awyddus i barhau i'w gyflawni, dros ei genedl.

Byddai Marg McNiel yn hynod falch: (i) gweld llawer mwy o Gymry, yn Gymry Llundain ac ymwelwyr â'r brifddinas, yn troi i mewn i'r Llyfrgell Treftadaeth yn King's Cross, i weld drostynt eu hunain beth sydd ar gael yno; (ii) cael hanes unrhyw Gymro neu Gymraes yng nghyffiniau Llundain a fyddai'n abl ac ewyllysgar i gynnig help gwirfoddol iddo yn y gwaith o gynnal a gofalu am y llyfrgell; (iii) clywed am unrhyw dŷ capel gwag yng nghefn gwlad Cymru y byddai ei berchnogion yn barod i'w osod iddo; (iv) derbyn unrhyw gyngor neu gyfarwyddyd ynglŷn â ffynonellau y byddai'n werth iddo fynd atynt i geisio nawdd i'w fenter; (v) clywed oddi wrth unrhyw ddarllenydd y bydd y llith hon wedi ennyn ei ddiddordeb a'i gydymdeimlad, ac a fyddai'n barod i fynegi ei gefnogaeth trwy ymaelodi mewn Cymdeithas Cyfeillion y Llyfrgell Treftadaeth y mae'n gobeithio gweld ei sefydlu yn y dyfodol agos.

Gellir cysylltu â Mr McNiel yn *The National Heritage Library, 313-315 Caledonian Road, London N1 1DR (0171 609 9639).*

OWEN E. EVANS
Llanfair Pwllgwyngyll

# GERALD MORGAN yn cofio J. R. MORRIS ac yn TYNNU DŴR O'CH DANNEDD

NI wn am ddim byd gwell am dynnu dŵr o ddannedd y gwir gasglwr na dangos iddo hen gatalogau J. R. Morris, y llyfrwerthwr. Y mae gennyf dri ohonynt: rhif 40, a gynhyrchwyd dros *Y Cwmni Llyfrau Cymraeg, 43b Hardman Street, Liverpool 1*, a rhifau 50 a 52, a gynhyrchwyd ganddo o'i siop enwog ar y Bont Bridd yn nhref Caernarfon. Maent oll, rwy'n tybio, yn gynnyrch y cyfnod 1950-58, ond hoffwn glywed gan unrhyw un sy'n gallu fy nghywiro. Ymhlith y trysorau a gynigwyd ynddynt ceir y rhain:

William Wootton, *Cyfreithieu Hywel dda ac Eraill, seu Leges Wallicae Ecclesiasticae ac Civiles Hoeli boni*, 1730; fel newydd, meddai'r catalog. Neu beth am waith William Baxter, *Glossarium Antiquitatum Britannicarum . . .* (1719). Cyfrol yn cynnwys peth o waith Edward Lhuyd oedd hon. Pris y cyfrolau amheuthun hyn oedd dwy gini yr un — ond pa syndod, pan oedd campwaith Edward Lhuyd, *Archaeologia Britannica*, ond yn bunt a chweugain? Rhaid cydnabod nad yw pob cyfrol yn y rhestr wedi cynyddu yn ei gwerth i'r un graddau; pris *Y Gwyddoniadur Cymreig* oedd pum swllt ar hugain; go brin y byddai neb yn barod i dalu cannoedd o bunnoedd amdano heddiw.

Yr oedd rhestr 50 yn cynnwys 31 o gyfrolau Gregynog, a'r mwyafrif ohonynt yn costio rhwng tair a phymtheg gini yr un. Yr oedd yn gofyn saith gini am *Caniadau* T. Gwynn Jones cyfrol na thelais ond pum gini amdani i Eric Jones ychydig flynyddoedd wedyn. Ond yr oedd gan J. R. Morris ychydig o deitlau yn y rhwymiadau cain, na wnaethpwyd ond 25 yr un ohonynt, a chostiai'r rheiny rhwng 65 a 75 gini. Ymhlith danteithion eraill y rhestr honno yr oedd *Flores Poetarum Britannicorum* (1710) o waith John Davies, Mallwyd, am wyth gini; *Gardd o Gerddi* Twm o'r Nant (1790) am ddwy gini; a'r argraffiad cyntaf o emynau Ann Griffiths am bymtheg swllt.

Yn yr un rhestr enwir y trydydd argraffiad o *Y Ffydd Ddiffuant* Charles Edwards (1677) am dair gini, a hoffwn gredu mai dyna'r un gyfrol a brynais gan Eric Jones ychydig flynyddoedd wedyn, ond na; rhaid mai copi salach oedd f'un i, oherwydd yn llaw J. R. Morris ceir y ffigurau £2.2.0. Ond beth bynnag am hynny, o na fuaswn wedi cael hyd i eraill yn yr un rhestr, megis ail-argraffiad *Llyfr y Resolution* (1684) am dair gini, ac yn rhyfeddaf oll, *Allwydd neu Agoriad Paradwys i'r Cymry* (1670), un o'r cyfrolau olaf a argraffwyd ar y cyfandir gan y Pabyddion Cymraeg alltud; tair gini oedd pris y gyfrol honno hefyd.

Beth felly oedd yn wirioneddol ddrud yr adeg honno? Wel, yr oedd *Gramadeg Siôn Dafydd Rhys* (1592) ar werth am bymtheg gini. Ond cyn i chi ruthro i chwilio am beiriant i deithio'n ôl mewn amser, dylid cofio mai cyflog wythnos i athro graddedig mewn ysgol uwchradd oedd pymtheg gini yr adeg honno. Tybed beth yw'r pris sy'n gyfatebol heddiw? Y mae pris llyfrau newydd wedi codi'n fwy na chwyddiant; pris cyfrol Penguin yn y 50au oedd dau swllt. Erbyn hyn mae cyfrol gyfatebol yn £6 neu £7.

Ta' waeth am hynny, y mae un teitl ar ôl yn rhestr 50 sy'n mynnu sylw. Yr oedd gan J. R. Morris gopi o Feibl William Morgan ar werth. Gwaetha'r modd, nid oedd wyneb-ddalen ganddo, na chwaith ddiweddglo Llyfr y Datguddiad. Serch hynny, byddai llawer o ddarllenwyr *Y Casglwr* yn barod iawn i fentro cyflog mis i'w feddiannu; y pris yn arian amser J. R. Morris oedd £42!


## AR WERTH

***Y Llenor*** (Gol. O. M. Edwards) Dwy gyfrol wedi'u rhwymo: Cyf. I (I-VII) Ionawr 1895 - Hydref 1896; Cyf II (IX-XV) Ionawr 1897 - Gorffennaf 1898). Saith rhifyn ychwanegol — copïau unigol.
***Cymru*** (Gol. O. M. Edwards) I-XII. Wedi'u rhwymo mewn chwe chyfrol.
***Y Beirniad*** (Gol. J. Morris-Jones). Yn gyflawn, cyfrolau I-VIII.
***Y Llenor*** (Gol. W. J. Gruffydd). Yn gyflawn.
**Cysyllter â (01248) 361233.**



SIOP LYFRAU
DYFFRYN DYFI
6 Heol y Doll, Machynlleth
Powys SY23 8BQ
Ffôn (01654) 703849
Llun — Sadwrn: 10 a.m. — 6 p.m.
Ar gau ddydd Iau